Nodyn ar Awdurdodaeth Cofiadur

Darperir yr wybodaeth hon gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder.

1. Mae adran 21 Deddf Llysoedd 1971, fel y'i diwygiwyd, yn caniatáu penodi Cofiaduron i weithredu fel barnwyr rhan-amser yn Llys y Goron ac i ymgymryd â'r cyfryw swyddogaethau barnwrol eraill ag a roddir iddynt. Ac eithrio fel y nodir yn wahanol, yn gyffredinol mae awdurdodaeth statudol Cofiadur yn cyfateb yn union yn ffurfiol i awdurdodaeth Barnwr Cylchdaith. Fodd bynnag, caiff y gwaith o ddyrannu busnes yn y llysoedd ei reoli hefyd yn gyffredinol gan awdurdodau eraill mwy penodol (e.e. i Lys y Goron, cyfarwyddiadau a wneir gan yr Arglwydd Brif Ustus dan ad.75 Deddf Goruchel Lys 1981 ac, i fusnes teulu yn y llysoedd sirol, cyfarwyddiadau a wneir gan yr Arglwydd Ganghellor dan ad.9 Deddf Llysoedd a Gwasanaethau Cyfreithiol 1990) a hefyd gan yr arferion a'r drefn rhestru mewn canolfannau llys neilltuol. Felly, nid yw Cofiaduron fel arfer yn delio ag apeliadau nac achosion a draddodir i Lys y Goron i'w dedfrydu ac, yn enwedig yng nghyfnod cynnar eu penodiad, nid ydynt yn debygol o ddelio ag achosion mwy pwysig a chymhleth yn y llysoedd y maent yn eistedd ynddynt. Mae angen darllen y paragraffau isod, sy'n crynhoi awdurdodaeth Barnwr Cylchdaith, yn unol â hynny.

Barnwyr Cylchdaith: Y Llysoedd Sirol

2. Mae awdurdodaeth y llysoedd sirol yn gwbl statudol ac mae'n cynnwys holl faes cyfraith sifil a theulu yn ei gyfanrwydd bron. Mae'r awdurdodaeth gyffredinol mewn cyfraith sifil yn cydredeg ag awdurdodaeth yr Uchel Lys gan mwyaf.

3. Mae nifer o statudau yn rhoi awdurdodaeth lwyr i'r llysoedd sirol. Mae'r rhain yn ymdrin â meysydd pwysig o waith y llysoedd sirol, er enghraifft, pob achos bron dan y Ddeddf Credyd Defnyddwyr, achosion gan fenthycwyr morgeisi sy'n ceisio meddiant ac achosion gan landlordiaid ac awdurdodau lleol dan y Deddfau Rhent a Deddfau Tai 1985 a 1988.

4. Yn ychwanegol at yr awdurdodaeth gyffredinol, mae gan tua 80% o lysoedd sirol awdurdodaeth mewn ansolfedd. Mae nifer fechan o Farnwyr Cylchdaith hefyd ag awdurdodaethau arbenigol dan, er enghraifft, Ddeddf Cysylltiadau Hiliol 1976.

5. Mewn cyfraith teulu hefyd mae'r awdurdodaeth wedi'i rhannu un ai drwy statud neu drwy gyfarwyddyd ymarfer. Mewn rhai materion, megis mabwysiadu, mae gan y llysoedd sirol awdurdodaeth gydredol â'r Uchel Lys. Mewn materion eraill mae gan y llysoedd sirol awdurdodaeth lwyr, e.e. pob achos ysgaru bron iawn.

6. Mae'r llysoedd sirol yn rhannu awdurdodaeth gyda'r Uchel Lys a'r Llys Achosion Teulu mewn ceisiadau dan Ddeddf Plant 1989, a byddir yn delio â gwaith ar y lefel briodol yn unol â chyfarwyddiadau dyrannu. Yn y llysoedd sirol lle bo perthynas rhwng achosion o'r fath ac achosion cyfraith gyhoeddus megis gorchmynion gofal a goruchwylio, cânt eu gwrando gan Farnwyr Cylchdaith dynodedig yn eistedd mewn Canolfannau Gofal ac ymdrinnir â phob cyfarwyddyd mewn materion o'r fath gan Farnwyr Rhanbarth enwebedig neu Farnwyr Cylchdaith yn eistedd yn y Canolfannau Gofal.

Barnwyr Cylchdaith: Llys y Goron

7. Mae gan Lys y Goron awdurdodaeth lwyr mewn treialon ar dditiad – sef y treial, yn y lle cyntaf, i bob tramgwydd troseddol, nas rhoddir ar brawf gan Lysoedd Ynadon.

8. Mae Llys y Goron hefyd yn dedfrydu pobl a ddyfarnwyd yn euog gan Lysoedd Ynadon ond a draddodwyd i Lys y Goron am fod yr Ynadon o'r farn y gallai fod angen dedfryd lymach na'r hyn y mae ganddynt hwy'r pŵer i'w bennu.

9. Mae gan Lys y Goron hefyd awdurdodaeth apeliadol sy'n cynnwys yn bennaf apeliadau o lysoedd ynadon mewn materion troseddol ac achosion Llys Ieuenctid, ond mae hefyd yn cynnwys rhai apeliadau mewn materion sifil. Yr apeliadau pwysicaf o'r fath yw'r rheini yn ymwneud ag achosion trwyddedu a betio a hapchwarae.

10. Yn Llys y Goron, caiff achosion eu dosbarthu i 4 dosbarth yn unol â chyfarwyddiadau a wneir gan yr Arglwydd Brif Ustus. Mae'r rheini yn nosbarthiadau 1 a 2 yn cael eu neilltuo mewn enw i dreial gan Farnwyr Uchel Lys. Yn nosbarth 1, fodd bynnag, mae llawer o achosion llofruddiaeth, neu o ysgogi, ymgeisio neu gynllwynio i gyflawni llofruddiaeth, yn cael eu rhoi ar brawf yn ymarferol gan Farnwyr Cylchdaith awdurdodedig, tra bo mwyafrif helaeth y troseddau yn nosbarth 2, ar wahân i fôr-ladrad, miwtini, peri cynnwrf a throseddau dan Gytundeb Genefa, yn cael eu rhoi ar brawf gan Farnwyr Cylchdaith awdurdodedig. Mae Dosbarth 2 yn cynnwys y troseddau rhywiol mwyaf difrifol, ynghyd â dynladdiad a difa plant.

11. Gallai achosion yn nosbarth 3 h.y. achosion twyll, gael eu rhoi ar brawf gan Farnwr Uchel Lys neu, yn unol â chyfarwyddiadau cyffredinol neu neilltuol a roddir gan Farnwr Llywyddol, gan Farnwr Cylchdaith neu gan Gofiadur a oedd wedi mynychu un o seminarau parhad y Bwrdd Astudiaethau Barnwrol ac wedi ei awdurdodi'n briodol gan Farnwr Llywyddol.

12. Gallai achosion yn nosbarth 4 h.y. pob trosedd arall, gael eu rhoi ar brawf gan Farnwr Uchel Lys, Barnwr Cylchdaith neu Gofiadur (gan gynnwys Cofiadur nad oedd wedi mynychu seminar parhad yn unol â'r cyfeiriad ym mharagraff 6 uchod). Ni allai achos yn nosbarth 4 gael ei restru i'w roi ar brawf gan Farnwr Uchel Lys ac eithrio gyda chaniatâd y Barnwr hwnnw neu Farnwr Llywyddol.

13. Mewn perthynas â throseddau a roddir ar brawf drwy dditiad, i Is-adran Droseddol y Llys Apêl y mae'r hawl i apelio yn erbyn euogfarn neu ddedfryd gan Lys y Goron, oni bo Tystysgrif Apêl wedi'i chodi gan farnwr y treial. Mewn achosion apeliadol ceir hawl i apelio ar sail yr achos a ddatganwyd i Lys Adrannol Is-adran Mainc y Frenhines, ac eithrio mewn perthynas â rhai materion neilltuol megis trwyddedu, lle mae penderfyniad Llys y Goron yn derfynol.